Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

# Cyflwr y Sector

Adroddiad ar gyflwr y gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, 2017

## Mae ein haelodaeth yn cynnwys 27 o wasanaethau arbenigol trydydd sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Sector (VAWDASV) yng Nghymru. Mae gennym gytundebau partneriaeth gyda'r rhain i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio.

Fel y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, hoffai Cymorth i Ferched Cymru hefyd ddiolch yn ddiffuant i'r holl wasanaethau arbenigol a gyfrannodd at yr *Adroddiad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiad Model ar gyfer Cyllid Cynaliadwy i Wasanaethau Arbenigol VAWDASV yng Nghymru* a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad *Cyflwr y Sector* hwn yn crynhoi canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad mwy sylweddol hwnnw, gan dynnu hefyd ar ddeunydd ychwanegol a gynhyrchwyd ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2017.

Awdur:
Hilary Watson
Swyddog Polisi ac Ymchwil

Cyhoeddwyd gan:
Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Plas Caxton,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

Dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel a ganlyn: "*Cyflwr y Sector: Adroddiad ar gyflwr y gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, 2017*"

I gael rhagor o wybodaeth am Cymorth i Ferched Cymru, ewch i www.welshwomensaid.org.uk

© Cymorth i Ferched Cymru 2017

* Newidiwyd enwau'r goroeswyr.

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan brofiad gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), ac yn gyfannol gan oroeswyr a'u plant yng Nghymru.**

Mae'n dilyn adroddiad Cymorth i Ferched Cymru *Achub Llochesi, Achub Bywydau* yn 2016, ar effaith toriadau cyllido ar wasanaethau arbenigol cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru. Roedd hwn yn amlygu pryderon difrifol yn y sector am gynaladwyedd cyllid ar gyfer y mwyafrif o wasanaethau lloches. Helpodd yr adroddiad hwnnw i lywio'r ymrwymiad dilynol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y *Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021*[1] i gyflenwi cyllid cynaliadwy i'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru.

Eleni, cynhaliodd Cymorth i Ferched Cymru hefyd ymarfer mapio adnoddau cenedlaethol mwy sylweddol mewn cydweithrediad â'r sector gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, *Adroddiad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiad Model ar gyfer Cyllid Cynaliadwy i Wasanaethau Arbenigol VAWDASV yng Nghymru* ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Roedd hwn yn cyfuno data ar yr amrywiaeth o gyllid sy'n mynd i'r gwasanaethau arbenigol a'r mathau o ddarpariaeth a gafwyd o ganlyniad i hynny, yr heriau mae gwasanaethau yn eu hwynebu i gyflawni cynaladwyedd, ac argymhellion i'r Llywodraeth a chomisiynwyr yng Nghymru i lywio datblygu arweiniad comisiynu Llywodraeth Cymru a model cyllido cynaliadwy.

Mae'r adroddiad *Cyflwr y Sector* hwn yn crynhoi canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad mwy sylweddol hwnnw a hefyd mae'n tynnu ar ddeunydd ychwanegol a gynhyrchwyd ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Medi. Ei ddiben yw amlygu tueddiadau a dangos yr hinsawdd cyllido bresennol a'r heriau sy'n dal i orfod cael eu goresgyn er mwyn i gyllido cynaliadwy yn y sector ddiogelu arbenigedd a'r gwaith mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud i achub bywydau goroeswyr cam-drin a thrais yng Nghymru bob dydd.

## Cymorth i Ferched Cymru

**Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff aelodaeth ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth i 27 o wasanaethau arbenigol annibynnol trydydd sector ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol VAWDASV.[2]**

Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Mae rhai gwasanaethau'n ddarparwyr arbenigol bach lleol ac eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol eu cwmpas. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys cyflenwi cymorth lloches a chymorth cymunedol ac allgymorth i fenywod, plant a phobl ifanc a dynion ar draws holl gymunedau Cymru, gan gynnwys cymunedau Du a lleiafrifol ethnig (BME), goroeswyr sy'n lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT), anabl, hŷn ac o grefyddau a chredoau niferus.

Darperir cymorth ar ffurf cyngor a gwybodaeth, cymorth ymarferol, eiriolaeth, cwnsela a chymorth therapiwtig, cymorth unigol a grŵp. Nod y gwasanaethau arbenigol hyn yw diwallu anghenion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, treisio a thrais rhywiol, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd', cam-fanteisio rhywiol a stelcio, anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM) a'r fasnach mewn pobl/caethwasiaeth fodern.

Ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr dan arweiniad anghenion, yn ymateb i rywedd ac sy'n gyfannol. Yn genedlaethol, mae Cymorth i Ferched Cymru yn darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflenwi polisi a gwelliannau gwasanaeth ar draws llywodraethau, gwasanaethau sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau o anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol a chefnogi ymchwil i atal cam-drin. Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; partneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig, ac rydym ni'n peilota prosiect ymgysylltu â goroeswyr i helpu i wella ymatebion asiantaethau i gam-drin (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr, SEEdS).

# VAWDASV yng Nghymru

**YN 2016/17:**

- Cafodd 14,129 o fenywod, dynion, plant a phobl ifanc loches ac eiriolaeth a chymorth yn y gymuned gan aelod-wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru[3]
- Methwyd â chynorthwyo 500 o oroeswyr (456 - 90% yn fenywod) mewn llochesi oherwydd diffyg adnoddau neu gapasiti'r gwasanaethau[4 5]
- Methodd 249 o oroeswyr cam-drin domestig â chael lle mewn lloches pan oedd angen cymorth am nad oedd lle ar gael ble a phryd roedd ei angen[6]
- Cafwyd 30,036 o alwadau, sgyrsiau gwe a negeseuon ebost i'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yng Nghymru a chafodd 14,088 o unigolion gymorth, gan gynnwys 13,505 o oroeswyr a 583 o ffrindiau ac aelodau'r teulu[7]
- Rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2016, mae'n wybyddus neu amheuir bod 13 o fenywod wedi'u lladd gan ddynion. Ar gyfartaledd, caiff un fenyw ei lladd bob 28 diwrnod[8]
- Yn 2016/17 cafwyd 251 o erlyniadau am dreisio yng Nghymru, gyda chyfradd euogfarn o 55.4%. Mae'r gyfradd hon yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru a Lloegr, sy'n 57.6%.[9] Yn yr un flwyddyn, cafwyd 792 erlyniad am ymosodiadau rhyw, gyda chyfradd euogfarn o 79.2%, sy'n cymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru a Lloegr, sef 79.5%[10]
- Yn 2016, cofnododd heddluoedd Cymru gyfanswm o 58,709 o ddigwyddiadau a throseddau'n ymwneud â cham-drin domestig[11]

**YN OGYSTAL:**

- Amcangyfrifir bod 137,000 o fenywod a merched yn byw gyda chanlyniadau FGM yng Nghymru a Lloegr.[12] Mae ymchwil yn awgrymu er bod cyfraddau'n amrywio rhwng ardaloedd gwledig a threfol, amcangyfrifir bod 1,270 o fenywod yn byw gyda FGM yng Nghaerdydd yn unig[13]
- Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn amcangyfrif bod mwy nag un ym mhob pedair menyw (27%) yng Nghymru a Lloegr, a 13% o ddynion, yn profi cam-drin domestig yn ystod eu bywydau. Mae hyn yn cyfrif am o ddeutu 353,080 o fenywod yng Nghymru[14]

**Y GOST I GYMDEITHAS:**

- Mae trais domestig yn costio £303.5m bob blwyddyn yng Nghymru: £202.6m mewn costau gwasanaeth a £100.9m o gynnyrch economaidd a gollir.[15] Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, y mae'r ymchwil yn amcangyfrif eu bod yn costio £522.9m arall i Gymru
- Mae ffigurau Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod pob achos o drais oedolion yn costio dros £96,000 yn ei effaith emosiynol a chorfforol ar y goroeswyr, cynnyrch economaidd a gollir oherwydd gwella, costau triniaeth i'r gwasanaethau iechyd a'r gost a wynebir yn y system cyfiawnder troseddol gyda thrais rhywiol yn costio o ddeutu £8.5 biliwn yng Nghymru a Lloegr[16]

**BETH YW GWASANAETHAU ARBENIGOL VAWDASV?**

Y diffiniad a dderbynnir o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yw:

Sefydliadau/gwasanaethau a gyflenwir yn annibynnol o'r wladwriaeth (h.y. trydydd sector) ac y mae eu busnes craidd yn ymwneud â chynorthwyo goroeswyr a/neu gyflawnwyr a/neu blant a phobl ifanc a effeithir gan unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (h.y. treisio ac ymosodiad rhyw gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin domestig, aflonyddu rhywiol, priodas dan orfod, FGM, cam-fanteisio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, y fasnach mewn pobl a chaethwasiaeth fodern a'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd').

Arweinir darpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV gan anghenion gan ymateb i rywedd, a chydnabod y continwwm o drais yn erbyn menywod a sicrhau bod ymyriadau a gwaith ataliol yn cysylltu VAWDASV â phatrymau ehangach o anghydraddoldebau rhyw a chroestoriadol, gan gynnwys ethnigrwydd, dosbarth, hunaniaeth rhywedd, oed, rhywioldeb, crefydd a chred.

Caiff dealltwriaeth a chyflenwi gwasanaethau arbenigol VAWDASV ei lywio gan ddadansoddiad o VAWDASV fel rhywbeth sy'n seiliedig ar rywedd ac yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, sy'n croestorri gyda ffactorau fel ethnigrwydd, oed, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau at adferiad.[17] Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn cydnabod bod modd atal y mathau hyn o drais yn llwyr, eu bod yn digwydd i fenywod a merched yn anghymesur am eu bod yn fenywod a merched fel math o reolaeth gymdeithasol, sy'n cynnal ac yn atgynhyrchu'r berthynas o bŵer anghyfartal ac sy'n cyflwyno rhwystr at gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod a merched.

Mae'r gwasanaethau arbenigol VAWDASV hyn yn wahanol i wasanaethau 'cymorth cyffredinol' gan fod gan y sefydliadau/gwasanaethau fodel cyflenwi gwasanaeth cyfannol sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, yn unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, a chânt eu rhedeg gan ac ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Drwy wneud hynny maent yn cynnig profiad grymusol unigryw yn enwedig i fenywod a phlant ac i gymunedau BME, gan fod y grŵp cleientiaid wedi'i adlewyrchu yn strwythurau staffio, rheoli a llywodraethu'r sefydliadau hyn.

# Cyflwr y Sector

## 27%

Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn amcangyfrif bod mwy nag un ym mhob pedair menyw (27%) yng Nghymru a Lloegr, a 13% o ddynion, yn profi cam-drin domestig yn ystod eu bywydau.

Mae hyn yn cyfrif am o ddeutu 353,080 o fenywod yng Nghymru.

## 55.4% Cyfradd euogfarn

AR GYFER ERLYNIADAU AM DRAIS

**Yn 2016/17 cafwyd 251 o erlyniadau am dreisio yng Nghymru, gyda chyfradd euogfarn o 55.4%.**

## 2,848 o bobl

YN DERBYN CYMORTH MEWN LLOCHES

Yn 2016/17, cafodd 1,596 o fenywod, 1,221 o blant a phobl ifanc a 31 dyn gymorth mewn lloches y llynedd.

## 24%

BME

O ddata'r sector VAWDASV yng Nghymru, roedd 24% o'r goroeswyr a dderbyniwyd i lochesi'n nodi eu bod yn BME yn 2016/17.

## 500 survivors

COULD NOT BE ACCOMMODATED

Methwyd â chynorthwyo 500 o oroeswyr (456 - 90% yn fenywod) mewn llochesi oherwydd diffyg adnoddau neu gapasiti'r gwasanaethau.

## 61%

GYDA PHROBLEMAU IECHYD MEDDWL

Nododd 61% o oroeswyr oedd yn cyrchu cymorth lloches yng Nghymru yn ystod 2016/17 bod ganddynt broblem iechyd meddwl (fel iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma, neu broblemau iechyd meddwl eraill).

## 25%

YN CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Dywedodd 25% o oroeswyr oedd yn cyrchu lloches bod ganddynt broblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau ar bresgripsiwn, anterth cyfreithlon a chamddefnyddio alcohol.

## 11%

GYDAG ANABLEDD

Roedd gan 11% o oroeswyr oedd yn cyrchu lloches anabledd corfforol neu feddyliol.

# Canfyddiadau Allweddol yr Adroddiad Hwn

## Y tirlun cyllido

**Mae'r sector arbenigol VAWDASV yng Nghymru yn wynebu ansicrwydd parhaus wrth geisio cynnal cyllid blwyddyn ar ôl blwyddyn, gan wynebu 'loteri cod post' yn dibynnu ar gael eu blaenoriaethu gan gomisiynwyr lleol, a pharhau i deimlo effaith toriadau cyllido cronnus.**

Y Rhaglen Cefnogi Pobl yw'r cyfrannwr mwyaf o lawer i wasanaethau arbenigol VAWDASV[18] yn y trydydd sector yng Nghymru, ac mae hyd yn oed lleihad bach yn y cyllid hwn yn risg i'r gwasanaethau. Ym mis Medi 2017 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal y grant hwn ar ei lefel gyfredol am y ddwy flynedd nesaf, ond mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnig uno grant Cefnogi Pobl a Grant Gwasanaethau VAWDASV gydag amrywiaeth eang o gyllido yn 2019/20. Bydd hyn i bob pwrpas yn tynnu gwarant y cyllid hwn, gan olygu bod blaenoriaethu cyllid y gwasanaethau hyn yn fater i awdurdodau lleol.

Cynigir hefyd na fydd unrhyw ddiogelu ar y gyfran o gyllid Cefnogi Pobl a dderbynnir gan wasanaethau VAWDASV; er bod cyfanswm y cyllid Cefnogi Pobl wedi'i gynnal yn 2017/18, cafwyd gostyngiad o 4% yng nghyfanswm cyllido gwasanaethau VAWDASV yn y grant Cefnogi Pobl.[19]

Gallai hyn leihau ymhellach yn 2019/20 gyda chynnig y dylid integreiddio cyllideb Cefnogi Pobl (£124.4 miliwn) ac elfen awdurdodau lleol o'r Grant Gwasanaethau VAWDASV (£2.4 miliwn) yn un grant newydd (grant Ymyrryd yn Gynnar, Atal a Chymorth), heb unrhyw gynigion i warantu dyraniad ar gyfer gwariant VAWDASV.[20]

Y llynedd, amlygodd adroddiad Cymorth i Ferched Cymru *Achub Llochesi, Achub Bywydau* fod gwasanaethau arbenigol yn cael eu gor-ymestyn a'u tan-gyllido, gan brofi toriadau i'w gwasanaethau plant, tai, cwnsela a lloches dros y blynyddoedd diwethaf.[21] Yn 2017/18, mae toriadau cyllido ar draws Cymru o grantiau cyngor a chontractau tai/digartrefedd, plant neu Teuluoedd yn Gyntaf, diogelwch cymunedol a lleihad mewn cyllid a rhoddion preifat wedi cyfrannu at leihau capasiti ymhellach ar draws y sector VAWDASV.[22] Mae toriadau'n arwain at doriadau cyflog i staff arbenigol, llai o oriau cymorth mewn gwasanaethau lloches, lleihad mewn capasiti ar draws sefydliadau cyfan a gwasanaethau'n methu â chyflogi staff newydd neu gadw arbenigedd staff tymor hir, sy'n gorfod edrych am waith mewn llefydd eraill.

Mae gan lawer o wasanaethau ansicrwydd parhaus o ran cyllid, nad yw wedi'i gadarnhau y tu hwnt i 2017/18, sy'n aml yn golygu ei bod yn amhosibl cynllunio'n ddigonol ar gyfer dyfodol y gwasanaethau hyn oherwydd dibyniaeth ar gyllid blynyddol gan awdurdodau lleol a grantiau tymor byr ychwanegol.[23]

## Crynodeb o newidiadau, lleihau ac ailgyfeirio cyllid

**Cafwyd gostyngiad cyffredinol o 5% yng nghyllid y sector arbenigol VAWDASV yng Nghymru.**

Mae'r newidiadau cyllido'n cynnwys:

- Ar draws Cymru mae gwasanaethau wedi gweld gostyngiad o 14% mewn cyllid o raglenni grant gwasanaethau plant a Teuluoedd yn Gyntaf gan awdurdodau lleol. Mae rhai gwasanaethau arbenigol nad ydynt yn derbyn unrhyw gyllid yn benodol ar gyfer cymorth i blant[24]
- Dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig mae gwasanaethau arbenigol wedi dioddef colli 30% o gyllid grantiau Tai ac atal Digartrefedd gan awdurdodau lleol[25]
- Mae 20% o gyllid Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru / Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru wedi'i ailgyfeirio[26]
- Mae cyllid Swyddfa Gartref oedd cyn hyn ar gael ar gyfer gwasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol[27] wedi'i ailgyfeirio i Gronfa Trawsnewid Gwasanaeth VAWG y Swyddfa Gartref. Nid yw'r diffyg yn y ddarpariaeth wedi'i ddiwallu gan gyllidwyr eraill fel roedd disgwyl
- Mae lefel y rhoddion a chynhyrchu incwm arall i wasanaethau arbenigol wedi gostwng 6%[28]
- Ni chafodd gwasanaethau arbenigol VAWDASV unrhyw gyllid gan Fyrddau Iechyd Lleol yn 2016/17, er bod swm bach wedi'i dderbyn y flwyddyn flaenorol (cyfanswm o £1,500 yn unig)[29]

Mae cyllid o grantiau a chontractau cynghorau wedi lleihau'n sylweddol ar gyfer 2017/18, gyda'r gostyngiad mwyaf gan gynghorau i'w weld yn y cyllid gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, sy'n ostyngiad o 55%.[30] Mae'r gostyngiadau i lefelau cyllido cyffredinol rhwng 2016/17 a 2017/18 yn peri gofid difrifol i'r gwasanaethau arbenigol VAWDASV.

## Pryderon at y dyfodol

**Yn 2018/19, mae'r prosiect *Braenaru Hyblygrwydd Llawn*[31] yn cynnig dileu gwarant Grant Gwasanaethau a Chefnogi Pobl VAWDASV – mae hyn yn golygu nad oes gwarant y caiff y cyllid hwn ei wario ar faterion VAWDASV neu flaenoriaethau Cefnogi Pobl yn yr ardaloedd hyn: Pen-y-bont, Caerdydd, Conwy, Casnewydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Yn 2019/20, mae diffyg llinell gyllideb benodol ar gyfer VAWDASV a grantiau Cefnogi Pobl i awdurdodau lleol yn golygu na chaiff y cyllid ei ddiogelu ar gyfer ei wario yn y meysydd hyn o 2019/20.**

Gallai tynnu'r warant hon i'r grantiau hyn gael effaith ddifäol ar wasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru. Er enghraifft ers tynnu gwarant grant Cefnogi Pobl yn Lloegr yn 2009, yn dilyn cyfnod o fesurau llymder ategol, rhwng 2010-14 collodd Lloegr 17% o lochesi arbenigol a throwyd traean o'r holl atgyfeiriadau i ffwrdd o lochesi, fel arfer oherwydd diffyg lle.[32] Mae gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi goroeswyr trais rhywiol a rhai dan arweiniad menywod du a lleiafrifol ethnig (BME) mewn perygl penodol[33], ac awgrymodd adroddiadau ym mis Tachwedd 2017 fod hyd at 75% o ostyngiad wedi bod mewn gwariant ar lochesi trais domestig ar draws 33 o awdurdodau lleol mewn un rhanbarth yn Lloegr ers 2010.[34]

Mae'r cynnig i ddileu'r gwarant cyllid i wasanaethau VAWDASV yng Nghymru yn dod ar adeg pan fo'r gwasanaethau hyn yng Nghymru eisoes wedi profi toriadau cyllid cronnol flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bo disgwyl y bydd galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu.[35] [36]

Drwy dynnu'r warant hon, mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo rheolaeth dros yr arian oedd wedi'i neilltuo'n flaenorol i'r grant Cefnogi Pobl i awdurdodau lleol allu bodloni ystod ehangach o flaenoriaethau, a allai weld rhywfaint o'r gronfa Cefnogi Pobl yn cael ei hamsugno i feysydd blaenoriaeth eraill ar draul 60,000 o'r bobl fwyaf bregus yng Nghymru sy'n elwa ohoni ar hyn o bryd. Mae Cefnogi Pobl ar hyn o bryd yn cyfrif am o leiaf 36.5% o gyfanswm cyllido gwasanaethau arbenigol VAWDASV ar gyfer trais domestig yng Nghymru.[37]

Yn ôl Llywodraeth Cymru byddai un grant mwy o faint yn golygu y gellid codi cyfyngiadau grantiau unigol llai a gellid defnyddio cyllid i ddiwallu anghenion a bennir yn lleol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ar lefel leol.[38]

Fodd bynnag, edrychodd Cymorth i Ferched Cymru ar bob un o Asesiadau Llesiant Lleol drafft y 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chanfuwyd pryderon ynghylch eu dealltwriaeth a'u cydnabyddiaeth o VAWDASV.[39]

Mae tynnu gwarant y grantiau hyn yn golygu nid yn unig y gellid gwario'r cyllid hwn ar feysydd gwaith eraill, ond mae hefyd yn golygu na fyddwn ni'n gwybod yn iawn faint sy'n cael ei wario ar waith VAWDASV nac ar wasanathau cymorth digartrefedd a thai yng Nghymru.

Ymhellach i'r newidiadau hyn, mae Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi cyhoeddi cynlluniau i dynnu cyllid costau tai a gefnogir yn y tymor byr o'r system les.[40] Mae hyn yn golygu y bydd yr holl lochesi'n cael eu cyllido ar sail darpariaeth, yn hytrach na'u cyllido drwy'r system budd-daliadau tai sy'n gysylltiedig â'r unigolyn sy'n cyrchu'r gwasanaeth (fel yn y gorffennol). Bydd y cyllid arfaethedig ar gyfer llety tymor byr yn cynnwys yr holl gostau tai – rhent a chosau gwasanaeth cymwys – a dalwyd yn flaenorol o fudd-daliadau tai.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn datganoli cyllid am hyn i Lywodraeth Cymru, a fydd yn pennu'r model cyllido i Gymru i'w roi ar waith o fis Ebrill 2020 ymlaen. Bydd Llywodraeth y DU yn darparu'r lefel o gyllid yn 2010/21 i Lywodraeth Cymru sy'n cyfateb i'r hyn a fyddai'n flaenorol wedi bod ar gael drwy'r system les. Mae hyn yn codi pryderon y bydd y cyllid yn cael ei osod ar ragfynegiadau presennol ac na fydd yn hyblyg i gwrdd â gwir angen.

Bydd rhaid i'r model newydd hefyd weithio ar y cyd â threfniadau cyllido eraill ar gyfer llochesi yng Nghymru, sef gweinyddu'r cyllid Cefnogi Pobl a VAWDASV a grybwyllir uchod. Gallai'r cynnig i uno Cefnogi Pobl â rhan o'r Grant Gwasanaethau VAWDASV yn un grant sengl newydd, heb unrhyw gynigion i'w warantu ar gyfer gwariant VAWDASV yn 2019-20, hefyd effeithio ar sut y gellid gweinyddu model newydd.

Y perygl yw wrth i Lywodraeth Cymru ddatganoli'r holl gyllid Cefnogi Pobl a VAWDASV i ardaloedd lleol a cholli'r warant ar hyn, y bydd y dyraniad cyllid ar gyfer tai a gefnogir o'r pot budd-dal tai blaenorol yng Nghymru hefyd yn mynd i bot lleol heb warant. Os bydd hyn yn digwydd, gallai llochesi yng Nghymru fod mewn perygl o golli eu holl gyllid, ac nid yr elfen cymorth yn unig.

# Tueddiadau a Goblygiadau i'r Ddarpariaeth

**Mae'r meysydd canlynol wedi'u dynodi fel tueddiadau sylweddol yn y data a ddadansoddwyd ar gyfer 2016/17:**

## Darpariaeth trais rhywiol

**Mae gwasanaethau trais rhywiol wedi cael gostyngiad sylweddol yn eu lefelau cyllido rhwng 2016/17 a 2017/18, tra bod galw wedi parhau i gynyddu. Mae un gwasanaeth arbenigol trais rhywiol yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 78% yn y galw am un maes gwasanaeth dros gyfnod o dair blynedd.[41]**

> **"Roeddwn i wedi fy ynysu'n llwyr - torrodd fi gyda cham-drin meddyliol a rhywiol, does gen i ddim hunan-barch, hunanwerth na hyder ar ôl."**
> Debora*

Dangosodd arolwg Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau arbenigol ar gyfer y cyfnod hwn ostyngiad o 20.2% o gyllid gyda cholli cyllid y Swyddfa Gartref, na chafodd ei godi gan gomisiynwyr lleol (fel yr oedd y Swyddfa Gartref yn ei ddisgwyl). Cafodd gostyngiadau pellach mewn contractau gyda Llywodraeth Cymru o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol effaith ar y gwasanaethau hyn hefyd, gyda gostyngiad cyllido o 60% o bob adran wedi'u cyfuno.[42]

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais rhywiol yn gostwng. Yn benodol, mae collid cyllid y Swyddfa Gartref wedi cyfrannu at ostyngiad o 49% yn y cyllid a ddyrennir i wasanaethau Cyngorwyr Trais Rhywiol Annibynnol [43] yn y trydydd sector.

**STORI LUCY*[44]**

Digwyddodd profiad Lucy o drais rhywiol pan oedd hi'n blentyn. Oherwydd effaith y trais rhywiol hwn, ynghyd â cham-drin domestig, problemau iechyd meddwl a threulio blynyddoedd ei harddegau yn bennaf mewn gofal maeth, mae angen cymorth penodol ar Lucy ar gyfer y gorbryder mae'n ei brofi. Mae wedi byw gydag aelodau agos o'r teulu sydd â phroblemau iechyd meddwl ac wedi tystio, yn ogystal â phrofi, cam-drin domestig.

Drwy gwnsela, dechreuodd Lucy ganolbwyntio ar wahanu ei hymddygiadau goroesi ac ymdopi angenrheidiol ar gyfer goroesi cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phryd y byddent yn gymorth, neu beidio, yn ei bywyd bob dydd. Mae wedi adrodd mor ddefnyddiol yw hi iddi wybod bod yna rywun a all weithio gyda hi unwaith yr wythnos nad yw'n feirniadol nac yn cael ei synnu'n rhwydd. Yn ystod ei sesiynau cwnsela diweddaraf, bu Lucy'n gweithio ar hunan-barch, gan herio ei chred nad oes modd ei charu a'i helpu i adfer ei hyder ynddi ei hun.

## Gwasanaethau gan fenywod BME ac ar eu cyfer

**O ddata'r sector VAWDASV yng Nghymru, roedd 24% o'r goroeswyr a dderbyniwyd i lochesi'n nodi eu bod yn BME yn 2016/17.[45]**

Yn 2016-17, cyfeiriwyd 21 o oroeswyr at wasanaethau cymunedol/allgymorth VAWDASV yng Nghymru nad oedd, oherwydd eu statws mewnfudo ansicr, ganddynt 'fodd i gyrchu cyllid cyhoeddus'; o'r rhain cafodd 16 o oroeswyr (76%) gymorth.[46]

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV BME yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllid ar lefel genedlaethol ar gyfer eu costau rheoli a seilwaith craidd, yn ogystal â rhywfaint o gyflenwi prosiectau yn y rhanbarthau.[47] Dim ond tua 50% o'u cyllid o fis Mawrth 2018 sy'n debygol o barhau ar ôl y dyddiad hwn.[48] O'i gyfuno gyda diffyg asesiadau anghenion effeithiol rhanbarthol sy'n amlygu anghenion VAWDASV goroeswyr o gymunedau BME, a'r anghysondeb sydd eisoes yn bodoli o ran y gwasanaethau arbenigol VAWDASV BME, ceir risg sylweddol i barhad y gwasanaethau hyn o 2018 ymlaen.

> **"Mae'n rhaid i fenywod sy'n goroesi trais oroesi ar ddim – does gennym ni ddim byd, dim dodrefn, dim bwyd, dim ffordd i gael cyllid cyhoeddus, mae angen arian arnom ni i fyw, neu byddwn naill ar y clwt neu'n marw. Dyw'r rheolau dim atebolrwydd a mewnfudo ddim yn helpu ... Ydy'r Llywodraeth yng Nghymru yn deall ein bod yn byw ar ddim byd?"**
> Priya*[49]

Y gyfran leiaf o gyllid dynodedig ar gyfer gwahanol fathau o wasanaeth yw darpariaeth gwasanaeth anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) (0.18%) a phriodas dan orfod (0.20%). Dim ond 0.38% o'r cyllid sy'n cael ei gyfeirio at wasanaethau priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd' ac FGM, ac mae data hefyd yn dangos nad yw'r gwasanaethau hyn ar gael ar draws Cymru gyfan ar hyn o bryd.[50] Cafwyd gostyngiad yn y cyllid a ddyrennir i fenywod a merched mewn perygl o FGM. Mae hwn yn faes gwasanaeth sydd ar gael yn ne Cymru yn unig, ond fe wyddom ei fod yn broblem ar draws Cymru.[51]

“Hebddyn nhw dwyf i ddim yn meddwl y byddwn i yma, dyna’r gwir amdani. Roedd yn fendith, ac yn golygu popeth i fi – rhoddon nhw fy mywyd yn ôl, newidiodd bob agwedd o fy mywyd.”

Linda*

## Darpariaeth cam-drin domestig

**Mae lloches yn cynnig diogelwch corfforol ac emosiynol a man i wella drwy gymorth llety i oroeswyr cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae gwasanaethau lloches yn rhan o rwydwaith genedlaethol ac ar draws y DU o ddarpariaeth sy’n galluogi teuluoedd i gael mynediad 24 awr at lochesi a symud rhyngddynt os oes angen.**

Mae’r gwasanaeth yn cael ei arwain gan anghenion y goroeswyr a’u plant a’i gyflwyno gan weithwyr cymorth (gan gynnwys gweithwyr cymorth penodol i blant a phobl ifanc) sydd wedi’u hyfforddi ac sy’n brofiadol o ran VAWDASV mewn amgylchedd sy’n grymuso menywod a phlant ac sy’n hyrwyddo eu hannibyniaeth a’u hunanbenderfyniaeth.

Yn 2016/17, cafodd 54% o oroeswyr oedolion a atgyfeiriwyd eu lletya a’u cynorthwyo mewn llochesi. Fodd bynnag cafodd 796 o fenywod a 51 o ddynion eu troi ymaith o gymorth lloches a gwrthododd 311 o fenywod eraill y cymorth lloches a gynigiwyd iddynt. Yn achos 44% o’r achosion, roedd hyn oherwydd bod y goroeswr wedi newid ei meddwl.[52]

O’r rhai a drowyd ymaith, roedd traean o’r goroeswyr - 249 o oedolion - wedi’u troi ymaith am fod y cymorth lloches roedden nhw am ei gael yn llawn. O edrych ar hyn ar wahân ar gyfer menywod a dynion, trowyd 213 o fenywod a 36 o ddynion ymaith am fod y lloches yn llawn. Trowyd 13% o fenywod ymaith oherwydd risgiau am leoliad y llochesi neu ymddygiad cyflawnwyr, er enghraifft bod y cyflawnwr yn gwybod eu lleoliad. Trowyd 12% o fenywod ymaith am fod y gwasanaeth yn gweithredu ar gapasiti llawn ar gyfer anghenion uchel/cymhleth a’r staff oedd ar gael i’w cynorthwyo - felly nid oedd modd eu derbyn yn ddiogel.[53]

Mae’r gyfradd troi ymaith yn amlygu nad oedd darpariaeth gwasanaethau arbenigol yn 2016/17 yn ddigonol i fodloni anghenion, a gyda gwell ymwybyddiaeth a chynnydd mewn atgyfeiriadau’n cael eu rhagweld o ganlyniad uniongyrchol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae dirfawr angen buddsoddi mewn sector arbenigol cynaliadwy.

Ceir pryderon hefyd efallai nad yw arferion comisiynu’n cyd-fynd â’r safonau cymorth arbenigol VAWDASV a geir yng Nghonfensiwn Istanbul, sy’n galw’n gryf am wasanaethau arbenigol yn hytrach na darpariaeth generig i sicrhau cymorth mwy priodol.

Mewn rhai ardaloedd o Gymru, cafwyd symudiad at gomisiynu mwy generig fel hyn ar wasanaethau, a all ddod ar draul gwasanaethau arbenigol lleol, gan beryglu colli degawdau o brofiad i un darparwr generig sy’n cyflenwi’r holl wasanaethau (er enghraifft darparwr tai anarbenigol yn cyflenwi lloches VAWDASV).[54] Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei gael:

**“Dylai gwasanaethau arbenigol gyfeirio at y gwasanaethau hynny sy’n cynnig ymyriad gyda ffocws a safonau ansawdd penodol gan staff cymwysedig priodol nad oes modd i wasanaethau statudol llinell flaen neu wasanaethau sy’n cynnig ‘cymorth cyffredinol’ eu darparu.”[55]**

Gall dod o hyd i le i atgyfeiriadau newydd hefyd fod yn anodd oherwydd y diffyg tai symud-ymlaen addas sydd ar gael i’r rheini sy’n gadael y lloches. Gall hyn fod yn waeth i oroeswyr rhwng 18-21 oed, nad ydynt yn gymwys dan y newidiadau i fudd-daliadau i’r elfen tai yn y Credyd Cynhwysol oni bai eu bod yn “profi” eu bod wedi’u cam-drin. Mae hyn yn golygu bod y pwysau unwaith eto’n cael eu gosod ar y goroeswr yn hytrach na’r cyflawnwr. Mae’r cap ar fudd-dal tai i bobl dan 35 oed ar gyfraddau sy’n caniatáu rhentu mewn llety a rennir hefyd yn debygol o fod yn amhriodol ar gyfer adferiad goroeswyr cam-drin ac yn sicr mae’n gosod cyfyngiadau ar eu rhyddid a’r broses o adennill annibyniaeth.

### STORI LINDA*[56]

Roedd Linda yn 55 pan aeth i loches, ar ôl degawd o gam-drin emosiynol ac ariannol pan nad oedd hi’n cael gweithio na chael arian a chafodd ei hynysu oddi wrth ei theulu a’i ffrindiau. Ar y dechrau, roedd Linda’n anfodlon iawn ymweld â’r lloches, heb sôn am aros yno, oherwydd y stigma. Ar ei hymweliad cyntaf fodd bynnag, doedd hi ddim yn awyddus i adael.

I Linda, newidiodd y lloches ei bywyd yn llwyr. Helpodd staff hi i sefydlu cyfrif banc, talu biliau a gwaredu’r ddyled oedd wedi cronni yn ei henw. O safle diogel y lloches, helpon nhw hi i adeiladu ei hyder er mwyn iddi deimlo’n gyfforddus i fynd allan ar ei phen ei hun yn y pen draw. Helpon nhw hi i gyfarfod â’r gwasanaethau tai ac ymgeisio i gael ei hailgartrefu, gan fynd gyda hi i weld pob eiddo a gafodd ei gynnig tan i Linda ddod o hyd i fflat addas, a symud i fyw ynddo ar ôl wyth mis o gymorth gan staff a goroeswyr eraill yn y lloches. Heb gymorth y lloches, dyw Linda ddim yn credu y byddai wedi gallu defnyddio gwasanaethau fel iechyd neu dai, na byw bywyd annibynnol, hapus fel y mae bellach.

“Mae angen yr un cyfle ar bawb. Ni oedd y plant. Nid ein bai ni oedd hwn. Os na fydden ni’n cael y cymorth arbenigol fydden ni ddim yn gwybod hynny.”

Ava*, Goroeswr Ifanc

## Gwasanaethau plant a phobl ifanc

**Mae ymdrin â Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond mae’r ddarpariaeth gyfredol ac ansefydlogrwydd y cyllid wedi golygu bod plant a phobl ifanc a effeithir gan adfyd, fel cam-drin domestig, yn wynebu ‘loteri cod post’.**

Er mwyn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol mewn plentyndod, mae angen cyllid dibynadwy wedi’i warantu i blant ac oedolion bregus gael derbyn cymorth priodol, therapiwtig, arbenigol ble bynnag y bônt yn byw yng Nghymru.

- Ar gyfartaledd, roedd gan 47% o’r goroeswyr oedd yn byw mewn llochesi blant. O’r rhain roedd 68% o’r plant yn y lloches gyda’u rhieni a 32% yn aros yn rhywle arall. Yn 2016/17, cafodd 1,221 o blant neu bobl ifanc gymorth lloches, ond nid oedd yr holl blant a letywyd mewn lloches yn derbyn cymorth penodol o ganlyniad i’r diffyg gweithwyr Plant a Phobl Ifanc oherwydd toriadau cyllid[57]
- Cafodd 3,113 o blant neu bobl ifanc gymorth gan wasanaethau cymunedol/allgymorth VAWDASV.[58] Caiff 5.64% yn unig o’r holl gyllid gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru ei ddyrannu i waith allgymorth cam-drin domestig, eiriolaeth a chymorth i blant a phobl ifanc yn gymuned[59]

**PROSIECT NEWID AGWEDDAU GYDA’N GILYDD (CHAT), CYMORTH I FENYWOD ABERTAWE**
**STORI JODIE*[60]**

Mae prosiect CHAT yn cynnig cymorth i bobl 11-18 oed sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig ac sy’n defnyddio ymddygiad afiach yn eu perthnasoedd. Cyfeiriwyd Jodie* at brosiect CHAT am fod ei mam yn methu â gorfodi unrhyw ffiniau a’i bod yn ofni ffrwydradau camdriniol ei merch. Byddai Jodie’n dinistrio ei hystafell wely ac yn ymosod yn gorfforol ar ei mam os oedd hi’n ceisio ei hatal rhag gadael cartre’r teulu. Roedd Jodie’n beio ei mam am y cam-drin roedd y teulu’n ei brofi.

Dysgodd Jodie y gwahaniaeth rhwng perthnasoedd iachus ac afiach, dysgodd am y gwahanol fathau o gam-drin domestig, a’r hyn sy’n atal dioddefwyr rhag gadael, gan ei helpu i gydymdeimlo gyda’i mam. Roedd Jodie’n gallu siarad am ei theimladau a dysgodd strategaethau ymdopi gwahanol i’w defnyddio pan oedd yn teimlo’n drist neu’n ddig. Erbyn hyn mae Jodie’n gallu cyfleu ei theimladau’n rhesymol i’w mam. Mae’r fam a’r ferch wedi dweud bod achosion o gam-drin a rheoli wedi lleihau.

## Gwasanaethau i oroeswyr anabl

**Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod anabl yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig (sy’n cynnwys cam-drin corfforol, seicolegol, rhywiol neu ariannol) o’u cymharu â’r boblogaeth ehangach, gan fod cyflawnwyr yn eu hystyried yn llai galluog ac yn darged haws.[61]**

Gallai menywod anabl sy’n profi cam-drin domestig fod yn fwy tebygol o fod angen pecynnau gofal amlasiantaethol ac wynebu rhwystrau niferus wrth geisio cyrchu cymorth.

- Roedd gan 10.9% o fenywod a 16.0% o ddynion oedd yn derbyn lloches anabledd corfforol neu feddyliol[62]
- Trowyd 11 o fenywod ymaith o gymorth lloches gan nad oedd cyfleusterau anabl ar gael[63]

Mae’n hollbwysig bod amrywiaeth eang o wybodaeth i oroeswyr sydd ag anableddau meddyliol a chorfforol ar gael mewn fformatau amrywiol, ac os caiff cymorth ei geisio, bod gan y gwasanaethau arbenigol adnoddau i fodloni anghenion pob goroeswr.

“Rwy’n hŷn, rwy’n fregus, rwy’n dioddef afiechyd ac rwy’n anabl, ond does gen i ddim gweithiwr cymdeithasol hyd yn oed. Roedd rhaid i’r clinig iechyd allgymorth roi’r gorau i ddod draw at fy nhŷ am ei fod e mor beryglus. Ond maen nhw’n disgwyl i fi fyw yna, a disgwyl i fi ei droi i ffwrdd pan fydd yn dod at fy nrws.”

Mary*[64]

## Darpariaeth i oroeswyr sy'n profi anfantais ddifrifol a lluosog

**Roedd gan yn agos i ddwy ran o dair o'r menywod mewn cymorth lloches yng Nghymru y llynedd broblemau iechyd meddwl tra bo chwarter yn profi camddefnydd sylweddau a bron i draean yn nodi anawsterau ariannol.[65]**

Fodd bynnag caiff llawer o oroeswyr eu troi ymaith bob blwyddyn o lochesi a'r ail reswm mwyaf cyffredin yw am nad oedd gwasanaethau'n gallu bodloni eu hanghenion penodol neu nad oedd ganddynt gapasiti pellach i gynorthwyo goroeswyr gydag asesiadau o anghenion cymhleth neu niferus. Digwyddodd hyn i 208 o oroeswyr yng Nghymru y llynedd.[66]

Mae effeithiau mesurau llymder ar ddarpariaeth gwasanaethau statudol a generig fel gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol yn effeithio ar allu goroeswyr i gael cymorth perthnasol ac amserol. Mae hyn wedi arwain at adroddiadau gan y gwasanaethau arbenigol VAWDASV eu bod yn canfod anghenion cymorth ychwanegol a chymhleth yn aml a achosir gan fylchau yn y gwasanaethau cyhoeddus.[67]

Mae goroeswyr yn defnyddio gwasanaethau arbenigol gyda lefelau cynyddol uchel o anghenion cymorth o ganlyniad i'w profiad o gam-drin sy'n croestorri,.byw gydag anfantais ddifrifol a lluosog. Does gan lawer o'r gwasanaethau ddim bob amser ddigon o adnoddau neu gapasiti i gyflawni'r lefel o gymorth dwys sydd ei angen yn yr achosion hyn.

**"Cefais ddiagnosis o PTSD [anhwylder straen wedi trawma] ac iselder ac mae gen i orbryder drwg. Ond mae eu rhestr aros yn hir ... mae'n flwyddyn ers i fi glywed hynny a dim byd ... rwy'n cymryd meddyginiaeth ac mae'n cael effaith mor ddrwg arnaf i ... rai dyddiau alla i ddim gadael y tŷ, rwy'n credu pe bawn i'n cael gwell help gan y gwasanaethau iechyd meddwl y gallwn i fod yn fam well."**
Elwen*[68]

**Nododd 61.5% o fenywod a 47.6% o ddynion a gafodd gymorth lloches yng Nghymru yn ystod 2016/17 fod ganddynt broblem iechyd meddwl (fel iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma neu broblemau iechyd meddwl eraill).[69]**

Nododd ymchwil diweddar i wasanaethau i fenywod sy'n profi anfantais luosog fod cymorth penodol i fenywod sy'n profi trallod meddyliol ar gael mewn pum awdurdod lleol yng Nghymru yn unig.[70]

Ar draws Cymru a Lloegr, mae 55.1% o'r gwasanaethau penodol i fenywod yn fydwragedd iechyd meddwl; gwasanaethau iechyd meddwl cynenedigol ac unedau mam a babi - yn anffodus dyma'r unig faes ble mae Iechyd yn diffinio bod gwasanaethau penodol i fenywod yn angenrheidiol.[71]

**"Mae cael man i fenywod yn unig yn y gwasanaeth cyffuriau'n golygu ein bod yn fwy tebygol o gael yr help sydd ei angen arnom ni, ac yn fwy tebygol o agor a rhannu'r hyn rydym ni wedi bod drwyddo."**
Julie*[72]

Mae llawer o ddarpariaeth gwasanaeth arbenigol VAWDASV yn galluogi effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant oedolion a phlant sy'n wynebu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu fel oedolion. Fodd bynnag nid yw gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yn elwa o fuddsoddiad gwasanaeth iechyd / comisiynydd yn genedlaethol nac yn rhanbarthol, o gymharu â gwasanaethau eraill yn y DU.[73]

Mae cymorth therapiwtig arbenigol i oroeswyr yn hanfodol ar gyfer gwella, gan ei fod yn rhoi profiadau goroeswyr ac ymddygiad y sawl sy'n cam-drin yn eu cyd-destun.[74] Gall ddileu cywilydd a phatrymau o hunan-feio y mae goroeswyr yn aml yn eu teimlo am y cam-drin maent wedi'i brofi, drwy gynnig cymorth mewn modd gwybodus, cyfannol, sy'n grymuso pob goroeswr ac sy'n bodloni eu hanghenion unigol ac anghenion eu plant.

**"Roeddwn i yn yr ysbyty ar ôl cymryd alcohol a chyffuriau oherwydd y cam-drin; roedd oherwydd y ffordd roedd fy ngŵr yn fy ngham-drin ond eto rhoddon nhw fy mhlant mewn gofal pan oeddwn i yn yr ysbyty. Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol wrthyf i fy mod i'n gaeth, ond doeddwn i ddim ... cam-drin a rheolaeth emosiynol oedd y cyfan."**
Jessica*[75]

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru wedi codi pryderon nad yw cymorth therapiwtig penodol yn aml yn cael ei gyllido'n uniongyrchol, er iddo fod yn hanfodol i fenywod a phlant sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ceir 'loteri cod post' o ran y cymorth therapiwtig hwn ar draws Cymru, ac mae'n arbennig o aciwt ar gyfer menywod a goroeswyr BME sy'n defnyddio gwasanaethau trais rhywiol. Ceir pwysau cynyddol hefyd ar y gwasanaethau arbenigol i gystadlu am grantiau, sy'n golygu bod gwasanaethau lleol yn cystadlu â darparwyr generig mwy o faint, gyda chyllidwyr yn aml yn dymuno cefnogi arloesi yn hytrach na chwnsela a gwaith grŵp y mae tystiolaeth eu bod yn newid bywydau.

**Dywedodd 25.6% o fenywod a 17.5% o ddynion oedd yn cyrchu lloches bod ganddynt broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau, sy'n cynnwys defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau ar bresgripsiwn, anterth cyfreithlon a chamddefnyddio alcohol.[76]**

Nododd ymchwil diweddar i wasanaethau ar gyfer menywod sy'n profi anfantais luosog bum awdurdod lleol yng Nghymru sy'n adrodd am gymorth camddefnyddio sylweddu penodol i fenywod. Canfu hefyd mai'r math mwyaf cyffredin o gymorth penodol i fenywod yng Nghymru yw bydwraig camddefnydd sylweddau.[77] Mae goroeswyr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau wedi dweud wrthym ni eu bod am weld darpariaeth i fenywod yn unig mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyffredinol, ac nid y rheini sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd yn unig.

# Casgliad

**Ers deugain mlynedd mae'r sector arbenigol VAWDASV wedi cynnig cymorth cyfannol, dan arweiniad anghenion a thrawma, sydd wedi achub bywydau miloedd o oroeswyr trais a cham-drin.**

Y dystiolaeth gan wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yw bod llawer o ansicrwydd yn nhirwedd cyllido'r dyfodol, gyda newidiadau arfaethedig i Cefnogi Pobl a grantiau VAWDASV eraill gan Lywodraeth Cymru, a chystadleuaeth barhaus am botiau cyllid cynyddol gyfyngedig. Mae hyn i gyd yn digwydd mewn cyd-destun o angen cynyddol am gymorth arbenigol i oroeswyr trais rhywiol a cham-drin domestig, yn ogystal â mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae cynnydd cyfatebol mewn anghenion cymhleth ac anfantais luosog yn golygu bod rhai gwasanaethau arbenigol yn brwydro dan straen diffyg capasiti. Mae'n lefel ychwanegol o bwysau ar wasanaethau arbenigol BME, plant a phobl ifanc ac anabledd, wrth iddynt sicrhau bod angen yn cael ei dystio a'i dderbyn i'r grwpiau hyn.

Ddwy flynedd a hanner ers cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae'n bryd i'r sector VAWDASV arbenigol a Llywodraeth Cymru uno i gyflawni model ar gyfer cyllid cynaliadwy i'r sector arbenigol, fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei strategaeth Genedlaethol, ac er mwyn gwireddu amcanion y ddeddfwriaeth arloesol hon.

Mae gwasanaethau arbenigol i fenywod yn unig yn cynnig mannau diogel VAWDASV iddyn nhw a'u plant allu dechrau lliniaru effeithiau eu profiadau o drais a cham-drin a dechrau adfer, ac mae angen i gomisiynwyr ddiogelu a blaenoriaethu'r rhain. Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes i bawb: o'r gost ddynol ac economaidd eang i'r perthnasoedd personol sydd gennym gyda'r rheini sydd o'n cwmpas bob dydd.

Unwaith eto hoffai Cymorth i Ferched Cymru gydnabod gwaith gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, goroeswyr, plant a phobl ifanc a gyfrannodd at yr adroddiad hwn. Cyfrifoldeb yr holl wasanaethau cyhoeddus yw diogelu goroeswyr, drwy ariannu gwasanaethau cyhoeddus digonol a gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol VAWDASV i gynnig llwybrau atgyfeirio digonol ac annog gwell dealltwriaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sylfaenol oddi mewn i'n sefydliadau ac ar draws cymdeithas a'u datrys ar draws Cymru er mwyn i ni gael Cymru fwy cydradd ble mae modd atal ac yn y pen draw ddileu trais yn erbyn menywod.

> "Mae sesiynau galw heibio i fenywod yn syml ond yn amhrisiadwy, os yw'r adeilad a'r amgylchedd yn teimlo'n ddiogel, gallwch fynd â menyw arall gyda chi am goffi, a does dim rhaid i chi weld gweithiwr cymorth bob tro, mae'n ymwneud â chael y lle yna i fynd allan, gweld pobl eraill sy'n deall ac mae'n helpu i gynyddu eich hyder. Mae sesiynau galw heibio a chanolfannau menywod yn gymorth mawr".

Gwyneth*[78]

CYFEIRIWCH AT WEFAN CYMORTH I FERCHED CYMRU AR GYFER Y TROEDNODIADAU.

welshwomensaid.org.uk